Mae angen i ni ymdrin â gwybodaeth bersonol amdanoch chi fel y gallwn ddarparu gwasanaethau ar eich cyfer. Dyma sut rydym yn gofalu am y wybodaeth honno.

Pan fyddwn yn gofyn i chi am wybodaeth bersonol, byddwn yn addo:

- gwneud yn siŵr eich bod yn gwybod pam rydym ei hangen;
- dim ond gofyn am yr hyn sydd ei angen arnom, a pheidio â chasglu gormod o wybodaeth neu wybodaeth amherthnasol;
- ei diogelu a gwneud yn siŵr na fydd neb na ddylai gael mynediad iddi yn cael mynediad iddi;
- rhoi gwybod i chi os byddwn yn ei rhannu â sefydliadau eraill er mwyn rhoi gwasanaethau cyhoeddus gwell i chi – ac a allwch ddweud na;
- gwneud yn siŵr na fyddwn yn ei chadw'n hirach na'r angen; a
- peidio â gwneud eich gwybodaeth bersonol ar gael at ddefnydd masnachol heb gael eich caniatâd.

Yn gyfnewid am hyn, byddwn yn gofyn i chi:

- rhoi gwybodaeth gywir i ni; a
- rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i ni, fel cyfeiriad newydd, cyn gynted â phosibl.

Mae hyn yn ein helpu i gadw eich gwybodaeth yn ddibynadwy ac wedi'i diweddaru.

Gallwch gael rhagor o fanylion am:

- sut i ddarganfod pa wybodaeth sydd gennym amdanoch a sut i ofyn i ni gywiro unrhyw gamgymeriadau;
- cytundebau sydd gennym â sefydliadau eraill ar gyfer rhannu gwybodaeth;
- amgylchiadau ble gallwn drosglwyddo eich gwybodaeth bersonol heb ddweud wrthych, er enghraifft, i atal a chanfod troseddau neu i gynhyrchu ystadegau dienw;
- ein cyfarwyddiadau i staff ar sut i gasglu, defnyddio a dileu eich gwybodaeth bersonol;
- sut rydym yn gwneud yn siŵr bod y wybodaeth sydd gennym yn gywir ac wedi'i diweddaru; a
- sut i gwyno.

I GAEL RHAGOR O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â:

Pan fyddwn yn gofyn i chi am wybodaeth, byddwn yn cadw o fewn y gyfraith, yn cynnwys Deddf Diogelu Data 1998. I gael cyngor annibynnol ynglŷn â materion diogelu data, preifatrwydd a rhannu data, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF.
Ffôn: 01625 545745 Ffacs: 01625 524510 E-bost: mail@dataprotection.gov.uk
Gwefan: www.informationcommissioner.gov.uk